*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod arbennig o AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU DDYDD LLUN 14 CHWEFROR 2022 yn rhithiol drwy Zoom.**

**Dechreuir y cyfarfod am 9.30 y bore.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

**AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Ddiddordeb**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**
Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Penodiadau i'r swyddi Swyddog Monitro a Thrysorydd**

5. **Materion Brys**

Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 2 uchod.

**<u>RHAN II</u>**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

6. **Penodiad i'r swydd Prif Swyddog Cynorthwyol (adroddiad ar lafar)**

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 4**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru: Cyfarfod Arbennig** |
| Dyddiad | **14 Chwefror 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) (01745 535286)** |
| Pwnc | **Penodi i swyddi Swyddog Monitro a Thrysorydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Pwrpas yr adroddiad yw rhoi gwybod i'r Aelodau am ganlyniad y prosesau caffael cystadleuol ar gyfer darparu Swyddog Monitro/Clerc a Thrysorydd i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Mae swyddi Swyddog Monitro a Thrysorydd yn swyddi statudol y mae'n rhaid eu dal gan unigolion ag enw sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad perthnasol. Daw'r swyddi'n wag ar 31 Mawrth 2022, a chytunwyd yng nghyfarfod ATA yn Rhagfyr 2021 i gynnal proses benodi gystadleuol sydd nawr wedi ei chwblhau.

3. O dan delerau cyfansoddiad yr Awdurdod, nid yw'r gwaith o benodi i swyddi statudol yr Awdurdod yn fater sydd wedi'i ddirprwyo ac mae'n cael ei gadw ar gyfer yr Awdurdod llawn. Felly, mae'r penodiadau hyn yn destun cymeradwyaeth yr Awdurodd llawn.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4. Nid yw'r adroddiad wedi cael ei ystyried o'r blaen. Mae'r broses gaffael wedi cynnwys cyfweliadau ffurfiol, a gynhaliwyd gan banel o Aelodau. Oherwydd arwyddocâd y ddwy swydd ar yr Awdurdod a'i holl Bwyllograu, ystyried mai doeth fyddai cael y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ar y panel, ynghyd â chynrychiolaeth o'r Panel Gweithredol.

**ARGYMHELLION**

5. Bod yr Aelodau yn:

   (i) nodi'r ffaith fod y broses gaffael gystadleuol ar gyfer darparu swyddog monitro/clerc a thrysorydd am gyfnod o bedair blynedd o 1 Ebrill 2022 ymlaen wedi'i chwblhau;

(ii) cymeradwyo penodi Gareth Owens, Cyngor Sir y Fflint yn Swyddog Monitro/Clerc a Dafydd Edwards yn Drysorydd.

**CEFNDIR**

6. Cafodd swydd statudol Swyddog Monitro ei sefydlu gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'n ofynnol i'r Swyddog Monitro ddarparu cyngor ac arweiniad i'r Awdurdod am faterion yn ymwneud â'r gyfraith a gweinyddu.

7. Cafodd swydd statudol Trysorydd ei sefydlu gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol fod pob awdurdod yn gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol, a bod y cyfrifoldeb hwnnw'n cael ei roi i unigolyn, sef y swyddog cyllid cyfrifol.

8. Mae'r gofyniad i benodi i'r swyddi statudol hyn yn cael ei gydnabod yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod ac mae Erthygl 7 yn cynnwys swyddi dynodedig Swyddog Monitro a Thrysorydd. Oherwydd natur statudol y swyddi hyn, mae gofyniad iddynt gael eu dal gan swyddog ag enw.

**GWYBODAETH**

9. Mae rolau Swyddog Monitro a Thrysorydd yn gofyn am wybodaeth benodol am drefniadau awdurdodau lleol, gan gynnwys materion cyfansoddiadol, llywodraethu, rheoliadau a'r codau perthnasol. Dylai'r broses benodi alluogi ystyriaeth lawn o'r agweddau technegol hyn wrth ddyfarnu'r contractau.

10. Yn unol â'r gofyniad yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod i gadw at egwyddorion y sector cyhoeddus, sef bod yn agored a thryloyw, hysbysebwyd y swyddi hyn yn allanol. Cynhaliwyd proses benodi ffurfiol ar gyfer pob swydd er mwyn sicrhau tryloywder, tegwch a gwerth am arian.

11. Yn unol â gofynion y Cyfansoddiad, cafodd y penodiadau eu goruchwylio gan bwyllgor penodi.

12. Oherwydd arwyddocâd y ddwy swydd o ran delio â'r Awdurdod a'i holl Bwyllgorau, cytunwyd yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Gorffennaf 2021 i wahodd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio i ymuno ag aelodau'r Panel Gweithredol ar y pwyllgor penodiadau. Felly, roedd y pwyllgor penodiadau'n cynnwys y Cynghorwyr P R Lewis, D Rees, M Ll Davies, B Apsley ac W O Thomas.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae trefniadau llywodraethu cadarn yn ffactor allweddol wrth sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â'i amcanion llesiant. |
| Cyllideb | Swyddi statudol yw'r rhain, a darparwyd cyllideb ar eu cyfer. |
| Cyfreithiol | Mae penodi Swyddog Monitro a Thrysorydd yn ofyniad statudol. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw effaith. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Rhoddwyd ystyriaeth ddyledus i gydymffurfiaeth â'r agweddau hyn yn ystod y broses benodi. |
| Risgiau | Byddai methu â phenodi yn arwain at sefyllfa lle nad yw'r Awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldeb statudol ac y byddai'n agored i her gyfreithiol a risg i'w enw da. |